| Datblygu siopau trwsio, sy'n wych o ran cymdeithasu a hybu economi gylchol | Dechrau ymgyrch i fynd â chŵn i ymweld â phobl hŷn/ynysig/agored i niwed | Ymgysylltu â'r gymuned fusnes trwy sefydliadau aelodaeth, megis Siambrau Masnach, i noddi cymunedau a dangynrychiolir | Cyfleusterau i alluogi ysgolion cynradd i gael mynediad i'r byd naturiol |
| Gweithgareddau yn ystod y gwyliau ysgol | Cydweithio rhwng sefydliadau ac elusennau i ddarparu gwasanaethau | Gweithgareddau ecolegol tywysedig i grwpiau cymunedol | Hwyluso mynediad at gwnsela ar gyfer iselder |
| Gwell darpariaeth chwaraeon (yn enwedig i blant 4-11 oed) | Sesiynau myfyrio/ioga mewn ystafelloedd dosbarth awyr agored | Trefnu teithiau cerdded/profiadau awyr agored am ddim | Defnyddio modelau rôl llwyddiannus o'r cymunedau -rhaid gweld llwyddiant cyn ei efelychu! |

**Tîm 3 – Y 3 Syniad ar y Brig**

| | Ateb yr her | Buddioldeb (a fydd eraill yn ei hoffi?) | Hyfywedd (a yw'r syniad yn realistig yn ariannol?) | Dichonoldeb (a oes modd ei gyflawni yn ymarferol?) | Cyfanswm y sgôr |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau awyr agored | 5 | 4 | 5 | 5 | 19 |
| Gwastraff bwyd a bwyta'n iach | 5 | 3 | 5 | 5 | 18 |
| Sgiliau bywyd | 4 | 4 | 4 | 4 | 17 |

**Tîm 4**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhoi cyhoeddusrwydd i'r manteision (radio lleol) | Ymwybyddiaeth | Noddwyr | Cydnabyddiaeth bersonol |
| Datblygu ecosystem o sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth | Cegin gymunedol yn gysylltiedig â llesiant a chyllideb | Gwasanaethau teg a chyfartal i bobl hŷn, teuluoedd ifanc a phobl ag anghenion arbennig | Cynlluniau ar gyfer aneddiadau gwaith/tai |
| Cyfleusterau chwaraeon hygyrch a fforddiadwy | Addysg eang ynghylch natur, cadwraeth, bygythiadau i fyd natur | Cronfa gymunedol o wirfoddolwyr | Clwstwr o ysgolion i fabwysiadu rhannau o'r ysbyty a'u llenwi'n barhaus â gwaith celf/gerddi |
| Gwasanaeth cyfeillio cymorth cartref lleol | Canolfannau cymunedol/clybiau ieuenctid | Mannau cymunedol croesawgar | Gwasanaethau cymorth iechyd meddwl |
| Datblygu panel dinasyddion i sicrhau gweledigaeth ar y cyd | Creu canolbwynt cymunedol gyda Felindre – mynediad at TG, pobl a gwasanaethau | Mwy o fannau gwyrdd | Mannau awyr agored sy'n hygyrch i bawb |
| Trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy | Defnyddio dewisiadau amgen sy'n fwy cydnaws â'r amgylchedd (e.e. beicio i'r gwaith) | Llwybrau beicio a llwybrau cerdded diogel gydag arwyddion da | Mynediad at Felindre trwy fyd natur i ystyried ffyrdd o symud o gwmpas |
| Cysylltiadau natur ym mhob ysgol – cadw gwenyn, garddio, natur, ar agor i'r gymuned, lle i rannu profiadau | Felindre i gynnal cystadlaethau celf a chwaraeon blynyddol ar gyfer ysgolion | Cyllido swydd ymchwil ar gyfer cyfnod hyfforddi yn Ne Cymru ym maes gwella canser | Mwy o gymorth statudol ar gyfer elusennau a darparwyr gwasanaethau gwirfoddol |
| Cyllido postiadau tîm Cymru ar gyfer preswylwyr o ddalgylch Felindre sy'n codi arian mewn rasys marathon | Cefnogi busnesau annibynnol lleol | Gwella'r draeniau | Cyngor iechyd arbenigol |

**Tîm 4 – Y 3 Syniad ar y Brig**

| | Ateb yr her | Buddioldeb (a fydd eraill yn ei hoffi?) | Hyfywedd (a yw'r syniad yn realistig yn ariannol?) | Dichonoldeb (a oes modd ei gyflawni yn ymarferol?) | Cyfanswm y sgôr |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleu'r neges | 5 | 3 | 4 | 5 | 17 |
| Mannau gwyrdd | 5 | 4 | 3 | 5 | 17 |
| Creu cymuned | 5 | | | | |

**Tîm 5**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adeiladu ar y Gemau Olympaidd i wneud ymarfer/chwaraeon yn beth rheolaidd mewn cymunedau difreintiedig | Hyrwyddo chwaraeon | Gwell ffordd i deuluoedd gael cymorth ac adnoddau mewn argyfwng | Adeiladu cyfleusterau gyda'n gilydd – sgiliau dysgu a pherchnogaeth (dylunio ysgol gymunedol) |
| Cynnig gwirfoddolwyr arbenigol | Cyrsiau lefel isel am ddim i aelodau'r gymuned (cynnal a chadw porfa, crefftau'r cartref, coginio) | Gwasanaeth gwirfoddol – llwyfan i recriwtio gwirfoddolwyr i helpu â chwaraeon, prosiectau adeiladu | Bwyd ffres fforddiadwy |
| Gwella integreiddio AAA yn y gymuned ac mewn gweithleoedd | Meithrinfeydd am ddim | Creu cyfleoedd addysg | Gwell trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol |
| Hyrwyddo arbedion ynni i deuluoedd er mwyn annog pobl i fuddsoddi mewn paneli solar ac ati | Cyfleusterau ac adnoddau newydd i ofalu am bobl hŷn | Mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod trwy ddarparu mwy o gymorth | Offeryn cynllunio undydd ar gyfer teithio ac ymarfer, yn gysylltiedig â thrafnidiaeth Caerdydd |
| Creu cyfleoedd addysg | Gwelliannau esthetig cyffredinol ar lefel isel mewn mannau prysur, fel yr olygfa o drenau sy'n cyrraedd dinasoedd/trefi, i'w gwneud yn fwy apelgar | Mentora dwyffordd i addysgu sgiliau bywyd | Rhyw fath o seilwaith i droi byd natur yn fan ymarfer (e.e. neilltuo lle ar afon Taf ac ystafelloedd newid ar gyfer nofio yn yr awyr agored) |
| Map rhyngweithiol tebyg i Google Maps ond ar gyfer trafnidiaeth Caerdydd, cerdded, beicio, toiledau, mannau gwefru, campfeydd ac ati | Canolbwynt Cymunedol | Gwneud pobl yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd cydweithio yn y gymuned | Digwyddiadau codi arian a dod ynghyd yn y gymuned leol |
| Mwy o lonydd beicio ac arwynebau gwell, gwella llwybrau troed, traciau rhedeg wedi'u marcio a'u cysylltu ag ap gyda heriau a gwobrau | Meysydd chwarae | Creu mannau gwyrdd hygyrch | Gwneud penderfyniadau fydd yn cael effaith hirdymor |
| Amddiffyn/diogelu mannau gwyrdd mewn cymunedau | Cynghreiriau chwaraeon lleol rhwng staff Felindre ac ysgolion/ cymunedau | Buddsoddi gan gyrff llywodraethu, a pheidio â dibynnu ar yr awdurdod lleol | Adnewyddu cyfarpar hanfodol ar leiniau chwaraeon (peiriannau marcio llinellau, tractorau, peiriannau torri) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cefnogi siopau a gwasanaethau lleol | Canolbwynt Co-Lab y gall elusennau weithio oddi yno | Hyrwyddo cynnwys y gymuned yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt | "Eich pentref" - cymuned o deuluoedd sy'n cael trafferthion, i'w helpu i oroesi |
| Mwy o gyfleoedd i famau barhau â'u gyrfa | Cerdyn clwb lleol | Cwmni budd cymunedol/gwario'r incwm ar wella gwasanaethau lleol | Adnewyddu a newid diben adeiladau presennol y Cyngor sydd mewn cyflwr gwael er mwyn galluogi'r gymuned i'w defnyddio |
| Lleiniau trydedd genhedlaeth (3G) ar gael i'w llogi gan y gymuned | Gwneud defnydd effeithlon o'r adnoddau ariannol | Pecyn canllawiau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu cymunedol | Creu lleoedd i rannu amser â'r gymuned |
| Fan chwaraeon lleol gyda chyfarpar a ddefnyddir yn wythnosol mewn clybiau | Busnes Canolbwynt Cymunedol ar gyfer pobl leol, canolbwynt coffi/banc/galw heibio | Mannau cyfarfod at ddefnydd pobl hŷn | Ysgoloriaethau i alluogi myfyrwyr i astudio dramor |

**Tîm 5 – Y 3 Syniad ar y Brig**

| | **Ateb yr her** | **Buddioldeb (a fydd eraill yn ei hoffi?)** | **Hyfywedd (a yw'r syniad yn realistig yn ariannol?)** | **Dichonoldeb (a oes modd ei gyflawni yn ymarferol?)** | **Cyfanswm y sgôr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleusterau chwaraeon (3G) | 5 | 4 | 4 | 5 | 18 |
| Canolbwynt Cymunedol | 5 | 5 | 4 | 4 | 18 |

**Tîm 6**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llyfrgell sgiliau | Cyd-gynhyrchu | Tyfu bwyd | Caffis dementia a chymorth seibiant |
| Addysg a gweithgareddau llesiant i bobl ifanc mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid | Mentrau bwyd a fydd yn cefnogi llesiant trwy addysg | Canolbwynt busnes/prentisiaethau | Celfyddydau hygyrch |
| Gweithgareddau ffitrwydd a bwyd i sicrhau darpariaeth sylfaenol i'r rhai sydd mewn angen | Defnyddio byrddau arddangos cyhoeddus ar gyfer celf yn y gymuned | Piano cerddoriaeth ar gyfer iechyd, y celfyddydau ac iechyd, yn y dderbynfa | Perfformiad i rannu sgiliau cerddoriaeth |
| Drwy'r porth, datblygu sianel sy'n hygyrch i bawb i gysylltu ymgeiswyr (yn enwedig ymgeiswyr o grwpiau a dangynrychiolir) â chyfleoedd/ hyfforddiant a chymorth | Digwyddiad picnic sy'n targedu man cymunedol ar ei newydd wedd (gardd gobaith, er enghraifft) i hyrwyddo'r lle ac annog pobl i'w ddefnyddio yn y dyfodol | Mynediad at fwyd ffres | Rhaglenni cyflogaeth ac addysg sy'n rhoi sylw i anghenion ac yn codi dyheadau |
| Ymwybyddiaeth o iechyd a llesiant | Sefydlu clybiau ieuenctid mewn ymgais i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ailgynnau cariad pobl ifanc at y gymuned | Noddi digwyddiad chwaraeon cynhwysol a gynhelir yn rheolaidd | Encil llesiant i'r rhai y mae angen seibiant arnynt – Fferm Chalton, er enghraifft |
| Grwpiau cleifion, cymorth a gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd lle gellir trafod straen a phwysau â phobl sydd yn yr un sefyllfa | Buddsoddi mewn cyfleusterau lleol i'w gwneud yn ganolbwynt yn y gymuned lle ceir mynediad at wasanaethau, grwpiau cymorth a sgwrsio, gweithgareddau ar gyfer yr henoed | Estyn allan at grwpiau sydd ar y cyrion | Teithiau cerdded hybu llesiant yn gysylltiedig â Llwybr Taf ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir, i greu cymunedau agosach |
| Llwyfan cymunedol | Mwy o leoedd defnyddiol i'w mwynhau yn lleol | Mynediad i fannau agored | Hamdden awyr agored – clybiau cerdded, clybiau garddio, clybiau cymdeithasol |
| Digwyddiad cydweithredol, rheolaidd i annog pobl i | Digwyddiad noddedig, her ranbarthol | Ffrindiau iechyd meddwl (barbyrau/siopau trin gwallt) | Buddsoddiad/Adnoddau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ailddefnyddio, cyfnewid, cyfrannu, gweithgarwch cymdeithasol | | | |
| Derbynfa, tiroedd, campfa awyr agored sy'n gynhwysol ac ar agor i bawb | Estyn allan at swyddogion ymgynghori a busnesau lleol, darparu llwyfan ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau *pro bono* i godi ymwybyddiaeth a darparu addysg | Gweithgareddau chwaraeon cymunedol ar gyfer pob gallu – gall pob corff fod yn ffit | Cyfleuster ar gyfer pobl ifanc, llwybr beicio, campfa awyr agored |

**Tîm 6 – Y 3 Syniad ar y Brig**

| | **Ateb yr her** | **Buddioldeb (a fydd eraill yn ei hoffi?)** | **Hyfywedd (a yw'r syniad yn realistig yn ariannol?)** | **Dichonoldeb (a oes modd ei gyflawni yn ymarferol?)** | **Cyfanswm y sgôr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Digwyddiad llesiant rhanbarthol noddedig | 5 | 5 | 5 | 5 | 20 |
| Man awyr agored y mae modd ei ddefnyddio ar gyfer hamdden | 5 | 5 | 5 | 5 | 20 |
| Digwyddiad picnic cysylltiedig ag addysg am fwyd | 5 | 5 | 5 | 5 | 20 |

**Tîm 7**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grwpiau cefnogi iechyd a llesiant yn y gymuned (yn defnyddio canolbwyntiau a chanolfannau) | Gweithio gyda phlant/ieuenctid y tu allan i oriau'r ysgol trwy gynlluniau sy'n hybu iechyd a llesiant | Cystadleuaeth i enwi'r ganolfan ganser a chreu capsiwl amser | Sgrin sinema awyr agored am ddim i blant yn ystod yr haf |
| Ymgysylltu – casglu adborth ar ddymuniadau'r gymuned | Ystafell ddosbarth symudol i addysgu sgiliau | Ras hwyl a gweithgareddau codi arian Clwb Rygbi'r Eglwys Newydd | Profiad gwaith i gefnogi cyflogaeth – mae angen mwy o brofiadau lefel mynediad ar bobl a fu'n ddi-waith ers cyfnod hir |
| Dosbarthiadau ffitrwydd am ddim gan ddefnyddio mannau gwyrdd yn yr Eglwys Newydd | Llwybr daeareg | Bwa Cof yr Eglwys Newydd | System ddigidol ar gyfer archebu tasgmyn a mân dasgau gan ddefnyddio gweithwyr llaw Sacyr |
| Defnyddio Tik Tok i ymgysylltu â phobl iau | Y llwybrau cerdded gwyrdd gorau yng Nghaerdydd – pobl i gyflwyno eu hoff lwybrau | Ymgyrch i annog pobl i gerdded | Ffatri arloesi ar gyfer plant |
| Dathlu'r tîm rheoli adeiladu sy'n cynnwys menywod yn bennaf | Gwerth Cymdeithasol – llwyfan i hyrwyddo busnesau lleol | Bwyd Bendigedig yn yr Eglwys Newydd | Cystadleuaeth y sied gorau |
| Cynnal ymgyrch llythrennedd carbon | Gerddi ar gyfer banciau bwyd – y gymuned yn tyfu'i bwyd ei hun | Gardd gymunedol | Ysgol goginio yng ngardd Felindre |
| Llyfrgell offer | Dull tebyg i Ikea – cysylltu sgiliau, offer, deunyddiau a grym y bobl | Sied dynion – iechyd meddwl | Coginio ac addysg |

**Tîm 7 – Y 3 Syniad ar y Brig**

| | **Ateb yr her** | **Buddioldeb (a fydd eraill yn ei hoffi?)** | **Hyfywedd (a yw'r syniad yn realistig yn ariannol?)** | **Dichonoldeb (a oes modd ei gyflawni yn ymarferol?)** | **Cyfanswm y sgôr** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

**Y Syniadau a Gynigiwyd**

Ar ddiwedd yr hacathon, roedd cyfle i bob tîm gyflwyno'u syniad i weddill y gynulleidfa. Yn unol ag egwyddorion Dechrau Rhywbeth Da®, nid oedd y sesiwn cyflwyno cynigion yn gystadleuol. Yn hytrach na chwilio am y syniad gorau neu fuddugol, nod y sesiwn oedd rhoi cyfle i bob tîm gyflwyno eu syniad cynnar a gweld sut y gallai pob syniad unigol ffurfio rhan o ddarlun mwy.


Roedd y dull cyflwyno cynigion yn cynnwys dau gyflwynydd o bob tîm. Roedd cyflwynydd un yn amlinellu pam yr oedd y syniad yn un da a pham y byddai'n gweithio. Yna, roedd cyflwynydd dau yn disgrifio'r heriau a'r rhwystrau posibl a nodwyd o ran symud ymlaen â'r syniad.

Mae dull gweithredu'r cynnig anghystadleuol yn caniatáu i bedwar peth ddigwydd

1. Mae'n gynhyrchiol ac yn agor y drws ar bosibiliadau newydd o ran sut y gallai syniadau a thimau gydweithio.
2. Mae'n parchu'r ffaith mai syniadau cynnar sydd yma ac y bydd angen eu datblygu ymhellach.
3. Mae'n osgoi gorfod penderfynu'n frysiog ar y syniad 'gorau' ac yn parchu cyfraniadau pawb sy'n cymryd rhan.
4. Mae'n ddull cydweithredol lle y mae'r holl dimau yn cydweithio fel un tîm mawr er mwyn rhoi sylw i heriau'r prosiect.

**Tîm 1**
**Syniad: Llwybr Felindre**

Llwybr ar gyfer Felindre sy’n cysylltu ac yn cydweithio â gwasanaethau, cymunedau ac amwynderau lleol eraill, gan gynnwys creu canolbwynt i’r gymuned yn Hosbis Dinas Caerdydd.
Bydd y llwybr yn hygyrch i bawb ac yn gwella’r hyn sydd gennym eisoes yn hytrach na chreu darpariaeth newydd.




Ystyriaethau / rhwystrau posibl:

- Mae nifer o fentrau sy’n ceisio gwneud yr un peth – felly bydd angen i ni gydweithio

**Tîm 2**
**Syniad: Tyfu eich bwyd tymhorol eich hun**

Gwella deiet pobl trwy gyflwyno ymgyrch i dyfu eich bwyd tymhorol eich hun, a chymhwyso Saith Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar yr un pryd.





Ystyriaethau / rhwystrau posibl:

- Gweithio ar draws sectorau gwahanol
- Pobl – a oes ots ganddynt?
- Sut y gallwn fesur a yw'r cymhelliad yn gweithio?
- Sut y gallwn weithio ochr yn ochr â'r archfarchnadoedd i sicrhau dull cydweithredol?

cwmpas
Start Something Good

**Tîm 3**
**Syniad: Taith Gerdded Dywysedig i bawb**

Menter taith gerdded dywysedig i bawb o Ganolfan Ganser Felindre, gyda chymorth codau QR sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol.  Yr ethos fyddai gwella iechyd (cyfri camau a chodi lefelau serotonin), a chysylltu â phobl o'r un anian a'u hannog i ymweld â gwahanol safleoedd o ddiddordeb.





Ystyriaethau / rhwystrau posibl:

- Amser
- Annog rheolwyr i ymrwymo i'r syniad
- Cyfleu negeseuon a chynwysoldeb
- Y tywydd – cael llyfrgell pethau (e.e. dillad, cadeiriau olwyn ac ati) i sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb

**Tîm 4**
**Syniad: Creu Cymuned**

Creu cymuned. Tîm sy’n mynd i mewn i ysgolion, llyfrgelloedd ac ati i eiriol dros gydraddoldeb a hygyrchedd. Gweithio gyda’r sefydliadau hyn i gyd-greu eu gweledigaeth o’r ffordd y dylai pethau fod, yn eu barn nhw.



<u>Ystyriaethau / rhwystrau posibl:</u>

- Rhwystrau diwylliannol
- Materion iaith
- Actifyddion amgylcheddol
- Cyllid
- Angen gwell llwybrau beicio a thrafnidiaeth

**Tîm 5**
**Syniad: Canolbwynt menter/ymgysylltu â'r gymuned**

Canolbwynt menter/ymgysylltu â'r gymuned sy'n gweithio ochr yn ochr â Chanolfan Ganser Felindre a'r gymuned leol. Byddai'n golygu creu rhwydwaith cymorth cydweithredol i edrych ar gyfleoedd caffael lleol; menter gymunedol â chydwybod fasnachol ar gyfer Felindre.





<u>Ystyriaethau / rhwystrau posibl:</u>

- Cyllido; sicrhau cynaliadwyedd
- Sicrhau cynwysoldeb ac amrywiaeth
- A fydd y cynllun yn werth yr arian?
- Pwy y gallwn ei gyflogi i reoli'r ganolfan a sut y mae gwneud hynny?

**Tîm 6**
**Syniad: Digwyddiad noddedig rhanbarthol y 'Fesen' ac ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus**


Digwyddiad noddedig rhanbarthol ac ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus. Ras gyfnewid noddedig y 'fesen' i godi arian ar gyfer Felindre.  Digwyddiad blynyddol y bwriedir iddo dyfu (fel mesen), i gyrraedd ardaloedd daearyddol ehangach. Bydd y digwyddiad yn hygyrch i bawb ac yn cynnwys siaradwyr allweddol, elusennau a chyfleoedd dysgu.




<u>Ystyriaethau / rhwystrau posibl:</u>

- Sut y gallwn sicrhau'r effaith fwyaf?
- Sut y gallwn ei wneud yn gynhwysol?
- Sut y mae mesur ei effaith?
- Bydd angen ffurfio tîm cymorth da
- Rhaid sicrhau cefnogaeth (ac ymrwymiad) y gymuned i ymgysylltu â'r digwyddiad a'i hyrwyddo

**Tîm 7**
**Syniad: Rhwydwaith Tyfu**




Rhwydwaith Tyfu. Mynd i'r afael â thlodi bwyd yng Nghymru yw'r nod, a byddai modd defnyddio llwyfan Felindre i gysylltu â phobl a chael mynediad at adnoddau defnyddiol megis offer a gwirfoddolwyr. Darperir hyfforddiant hefyd yn rhan o'r gwasanaeth, megis 'Coginio â chynhwysion o'r banc bwyd'. Y neges a hyrwyddir yw bod modd tyfu bwyd yn unrhyw le, a chefnogir hynny gan y rhwydwaith.

<u>Ystyriaethau / rhwystrau posibl:</u>

- Sgiliau – mae arnom angen pobl â gwybodaeth a phrofiad
- Bydd gofyn sicrhau cyllid
- Asesu faint o bobl sydd wedi'u cysylltu'n ddigidol
- Ymgysylltu â mwy o bobl
- Amlygu mannau tyfu

**Crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion**

Gwelwyd fod rhai themâu yn codi droeon yn y syniadau a'r cynigion niferus a gyflwynwyd gan y timau. Mae natur trefn yr hacathon yn golygu bod syniadau yn aml yn cydlifo, ac mae cipolygon nifer o'r timau yn cyfrannu at themâu cydweithredol ehangach sy'n dod i'r amlwg. Roedd hyn yn glir yn sesiwn cyflwyno cynigion Hacathon Canolfan Ganser newydd Felindre.

*Pobl sydd wrth wraidd popeth*

Os oedd edefyn aur yn rhedeg trwy'r sgyrsiau, y gweithdai a'r sesiynau cyflwyno cynigion yn ystod y diwrnod, yna pwysigrwydd sicrhau bod pobl wrth wraidd popeth yn adeilad newydd Canolfan Ganser Felindre oedd hwnnw. Roedd y geiriau "hygyrch," "cynhwysol," pryderon ynghylch yr hen, yr ifanc, cleifion, teuluoedd, gwahanol ddiwylliannau, gwrando, adborth, ymgysylltu ystyrlon â'r gymuned, yn britho ac yn llenwi sgwrs ar ôl sgwrs. Gosodir y datganiad hwn ar ddechrau'r adran hon, gan fod pawb wedi'i godi fel rhywbeth a oedd o'r pwys pennaf, ac fe ddylai barhau i fod felly.

*Natur, Celfyddyd, a mannau tyfu sy'n hygyrch i bawb*

Mynegwyd dymuniad clir a nifer o syniadau am leoedd natur a mannau tyfu sy'n hygyrch i bobl o bob oed, ond yn gysylltiedig hefyd â phlant, pobl ifanc, ac addysg. Roedd y math o leoedd y teimlid bod eu hangen ar bobl yn amrywio; o randiroedd a gerddi cymunedol i doeon gwyrdd ar gyfer peillwyr a gwella mannau cerdded.

Beth sy'n amlwg yn yr ystod hon o fannau tyfu gwyrdd a dewisiadau natur yw dymuniad clir i newid y ffordd y mae pethau'n gweithio ar hyn o bryd, er mwyn i gymunedau o bob oed allu defnyddio'r lleoedd a thyfu cynnyrch er mwyn newid eu profiad presennol o fwyd a'r system fwyd. Mae awydd clir i gysylltu banciau bwyd â chyfleoedd tyfu lleol. Roedd hyn yn nodwedd amlwg yn syniadau Tîm 2 a Thîm 7. Amlygwyd hygyrchedd a'r angen i ddileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag mwynhau byd natur. Roedd Celfyddyd hefyd yn thema gref yn ystod y diwrnod, fel rhywbeth i'w fwynhau ac i gymryd rhan ynddo.

*Addysg, cyfleoedd a sgiliau*

Thema arall a ddaeth i'r amlwg yn sgil yr hacathon yw'r angen am addysg a chyfleoedd ar sawl lefel ac ar sawl ffurf. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â phlant a phobl ifanc trwy ddarparu gwybodaeth a'u cynnwys yn y system fwyd a thyfu bwyd, ond mae hefyd yn cynnwys addysg i deuluoedd a phobl o bob oed ynghylch maeth, sgiliau coginio a gwastraff bwyd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fwyd, maeth, gwastraff, iechyd ac ati a'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i wneud y pethau hyn yn llwyddiannus.

Yn y tablau "8 mewn wyth" yn yr adroddiad hwn, gallwn weld thema bendant ynghylch ymgysylltu ag ysgolion ac addysg gysylltiedig â natur a chadwraeth. Roedd cysylltiadau â sefydliadau addysg hefyd yn thema bendant yn yr ymarferion Mapio Asedau.

*Ymgysylltu â'r Gymuned*

Daeth yn amlwg hefyd fod ymgysylltu â’r gymuned a chydweithio yn themâu pendant yn y digwyddiad. Eto, gwelir hyn yn yr awydd i roi gwybod i’r cymunedau am yr hyn sy’n digwydd a’u cynnwys hefyd mewn penderfyniadau, casglu adborth ganddynt a’u hannog i gymryd rhan mewn cynlluniau. Mynegwyd hynny hefyd gan y timau wrth iddynt ystyried sut i gysylltu â phobl hŷn, pobl agored i niwed, pobl ifanc, pobl o wahanol ddiwylliannau, a phobl Ddu ac ethnig leiafrifol.

Amlygodd Fapiau’r Her bod angen gwrando ar bryderon pobl a’u deall er mwyn cyflwyno’r hyn y mae arnynt ei angen a’u cynnwys yn y broses. Cyflwynodd Tîm 4 a Thîm 5 syniadau y mae ymgysylltu â’r gymuned a gweithio gyda nhw yn rhan ganolog ohonynt.

*Cydweithio a chyllido*

Nodyn amlwg yn ystod y gynhadledd oedd pwysigrwydd, gwerth a manteision cydweithio. Rhedai’r edefyn hwn trwy bob cynnig a gyflwynwyd, ond fe’i mynegwyd yn arbennig o glir gan Dîm 1. Eu syniad nhw oedd sicrhau bod modd cysylltu’r holl bethau da a gyflawnir gan wahanol grwpiau. Soniodd timau eraill am beryglon gweithio heb ymwneud ag eraill a diffyg meddwl yn gydlynus. Roedd yr hacathon ei hun yn enghraifft o gydweithio wrth i grwpiau o bobl wahanol o wahanol sefydliadau a chefndiroedd gydweithio fel timau ac fel digwyddiad cyfan i ddatblygu cynlluniau llesiant hirdymor. Nododd nifer o’r timau y byddai angen cyllid i symud ymlaen, a datblygu eu syniadau.

*Dechrau’n fach ac ehangu*

Yn ystod y diwrnod, cynigiodd nifer o dimau syniadau a allai ddod yn ficro-ymyriadau a chynlluniau peilot. Byddai modd monitro effeithiolrwydd y micro-ymyriadau hyn a darparu rhagor o adnoddau ar eu cyfer pe baent yn llwyddiannus. Gallent weithredu fel mentrau lleol “dros dro” mewn mannau sydd eisoes yn bodoli ac yn cael eu defnyddio’n dda yn y gymuned.

Roedd y syniadau a gyflwynwyd gan Dîm 2, Tîm 5 a Thîm 7 yn fentrau a allai weithio ar raddfa fwy. Byddem yn argymell edrych ar ddichonoldeb y syniadau hyn, gan gynnwys holi a oes prosiectau tebyg ar waith yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Gallai hyn gynnwys ymweliadau taith ddysgu, sy’n ffordd effeithiol o gael gwybodaeth uniongyrchol am yr heriau sy’n gysylltiedig â sefydlu’r prosiectau hyn.

*Cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus*

Cynigiodd Tîm 6 syniad trawiadol am ymgyrch codi arian blynyddol gan ddefnyddio “mesen” fel symbol. Gallai’r fenter hon sbarduno cynulleidfa eang i gynnig cymorth hirdymor i’r Ganolfan newydd. Mae’n amlwg y bydd angen strategaeth, adnoddau ac offer cyfathrebu effeithiol a gynlluniwyd yn ofalus ar bob cynllun arfaethedig er mwyn sicrhau’r effaith fwyaf.

*Yr ecosystem a'r strategaeth ehangach*

Trwy ddod â 45 o randdeiliaid allweddol ynghyd ar gyfer diwrnod o sgwrsio a llunio syniadau, cafwyd "data cynnes" sylweddol i'w hystyried. Ceisiwyd darparu cymaint o'r data hyn â phosibl trwy gofnodi'r sgyrsiau ym mhob gweithdy yn ystod y gwahanol rannau o'r diwrnod.

Wrth i'r prosiect ddatblygu, bydd rhagor o gyfleoedd i hwyluso sgyrsiau a syniadau sy'n cynhyrchu "data cynnes" pellach gydag ymarferwyr iechyd, grwpiau cymunedol, trigolion a busnesau lleol.

Datgelodd y diwrnod nifer o syniadau cydnaws a chydategol a allai weithio mewn cytgord. Un her sy'n deillio o'r diwrnod hwn fydd penderfynu sut y mae rhoi'r syniadau hyn ar waith. Mae perygl y gall pethau da ddigwydd heb gysylltiad ag eraill. Mae angen dull gweithredu clir, cydlynus er mwyn manteisio hyd yr eithaf ar y mentrau cymunedol.

**Etifeddiaeth**


***"Beth yw syniad da? Un sy'n digwydd. Os nad yw'n digwydd, nid syniad da mohono."***

Paul Arden

Darparodd y digwyddiad lawer o wybodaeth a syniadau mewn ymateb i'r cwestiwn **"Sut y gallem wella llesiant cymunedau ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor?"** a oedd yn cynnwys datblygu ymgysylltiad â'r gymuned, adeiladu ar asedau cyfredol ("gwella'r hyn sydd gennym yn barod"), gwell addysg ynghylch sgiliau sylfaenol bywyd, creu cyfleoedd, a dull mwy cydweithredol o ymdrin â syniadau ar gyfer adeilad newydd y Ganolfan Ganser.

I aralleirio Thomas Edison, "Deuparth athrylith yw arfer." Mae'r un peth yn wir ym maes arloesi. Nod y digwyddiad oedd creu fflach o ysbrydoliaeth, ond yn awr mae'n bryd torchi llewys a symud ymlaen. I gynorthwyo â'r camau nesaf, argymhellir defnyddio'r offer canlynol:

1) Adolygu'r mapiau Ymgyfarwyddo/Asedau, yn unigol ac ar y cyd. Argymhellir defnyddio Diagram Ishikawa i hwyluso'r dasg hon.




2) Mae trefn diwrnod yr hacathon yn cynnig tystiolaeth dda o waith cydweithredol "agored" i ddylanwadu ar randdeiliaid allweddol. Cofnodir tystiolaeth o gydweithio da yn yr adroddiad.

3) Adolygu pob syniad a gynhyrchwyd. Gall fod syniadau gwell 'y tu ôl i'r syniadau' (nid y syniadau a gynigiwyd gan y grŵp ar y diwrnod fydd y syniadau gorau o reidrwydd), neu efallai bod lle i gyfuno syniadau ymhellach, gan nad oedd pob bwrdd yn ymwybodol o gynigion y lleill ar y pryd.

4) Yn seiliedig ar ganfyddiadau craidd y digwyddiad hwn, amlinellwch y prif heriau a/neu'r syniadau a gynigiwyd a gwahodd yr holl randdeiliaid posibl i ffurfio gweithgorau.

5) Ar ôl dod ynghyd eto i drafod syniad, penderfynwch a oes modd i'r syniad gael ei 'wthio' ymhellach.

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i "ymestyn" y syniadau a gynhyrchwyd yn ystod y digwyddiad ymhellach:

**Cyfuno** – Beth y gallaf gyfuno fy syniad ag ef? Cynnyrch arall? Proses?

**Mireinio** – A oes modd mireinio'r syniad ar gyfer angen neu gynulleidfa benodol?

**Newid diben** – A oes modd defnyddio fy syniadau at ddiben arall, cynulleidfa arall, adeg arall?

**Symud i fyny** – A fyddai'n well gosod y syniad yn nes at wraidd y broblem?

**Pegynu** – A oes modd troi'r syniad ar ei ben a chreu rhywbeth newydd?

**Paratoi ar gyfer y dyfodol** – A oes modd moderneiddio'r syniad ymhellach?

**Gwyrdroi tybiaethau** – A oes modd dileu elfen allweddol i greu rhywbeth newydd?

**Lansiad i'r Lleuad** – Sut y bydd y syniad yn edrych ymhen deng mlynedd neu ragor?

**Mater eilradd** – A oes modd gwneud rhywbeth arall cefnogol ochr yn ochr â'r her dan sylw?

**Mân chwaraewr** – A oes modd i mi chwarae rhan lawer llai (ond effeithiol) yn y broses?

**Lleidr** – A oes modd codi syniad/proses rhywun arall o gyd-destun gwahanol a'i ychwanegu at fy syniad i?

**Môr-leidr** – A oes modd torri rheol i greu rhywbeth newydd?

**Lleihau hyd yr eithaf** – Beth yw'r cynnyrch ymarferol lleiaf y gallaf ei gynhyrchu?

6) Wrth adolygu unrhyw syniad, trowch yn ôl, dro ar ôl tro, at y matrics sgorio canlynol:

| | Bodloni'r her | Buddioldeb (a fydd eraill yn ei hoffi) | Hyfywedd (a yw'r syniad yn realistig yn ariannol?) | Dichonoldeb (a oes modd ei gyflawni yn ymarferol?) | Cyfanswm y sgôr |
|---|---|---|---|---|---|
| Syniad | /5 | /5 | /5 | /5 | /20 |

7) Cwestiynau defnyddiol i'ch paratoi ar gyfer y daith o'ch blaen:

| | |
|---|---|
| Pa dri pheth y gallwch eu gwneud er mwyn cyrraedd eich nod? | |
| Beth sy'n eich gwneud yn ddigon dewr a hyderus i weithredu ar eich syniadau? | |
| Sut y gallwch greu system gymorth o'ch cwmpas? | |
| Pa dri ffactor fydd yn ei gwneud yn anodd i chi gyflawni eich amcan a sut y gallwch eu dileu neu eu lleihau o leiaf? | |
| Pa risgiau bach ond diogel y gallwch eu cymryd i edrych y tu hwnt i'r camau gweithredu 'arferol ac amlwg'? | |
| Beth sydd yn y fantol i chi? | |
| Sut y mae troi niwsans yn ysbrydoliaeth? | |
| Pa adwaith negyddol yr ydych yn ei ddisgwyl a sut y gallwch ei ailgyfeirio? | |
| Sut y gallwch wneud eich syniad yn fwy apelgar i eraill? | |
| Pa derfynau amser caeth personol y gallwch eu gosod? | |
| Sut y gallwch barhau i sbarduno'ch hun i gyflawni'r dasg hon? | |

8) Ymrwymwch i ddefnyddio amcanion CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol Uchelgeisiol a Synhwyrol). Lluniwyd y tabl hwn i'ch cynorthwyo â'r dasg hon:

| | **Pwy?** | **Beth?** | **Pryd?** | **Ble?** | **Pam?** | **Sut?** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tasg 1** | | | | | | |
| **Tasg 2** | | | | | | |
| **Tasg 3** | | | | | | |
| **Tasg 4** | | | | | | |

“Pan fydd pobl yn teimlo eu bod yn perthyn, gallant wneud eu gorau a bod y gorau y gallant fod”

Susie Wise, d:school